



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**10 Rhagfyr 2021**

**9:00 am – 12:00 am**

**Dros M S Teams**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Catrin Roberts, Y Cynghorydd Christine Jones, Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd John Pritchard, Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fôn Roberts (yn bresennol tan 10:00 am), Helen Corcoran, Jenny Williams, Jo Whitehead, Ann Woods (yn bresennol ar ran John Gallanders), Lucy Reid, Morwena Edwards, Neil Ayling, Nicola Stubbins (yn bresennol tan 10:45 am), Ricki Owen, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Chris Stockport, Y Cynghorydd Cheryl Carlisle, Y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Dr Lowri Brown, John Gallanders, Meinir Williams-Jones, Paul Scott, Roma Hooper, Sam Parry
Hefyd yn bresennol:	Jo Flannery, Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol, RhDGC (ar gyfer eitem agenda 2) Lynda Chandler, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant , Uned Gyflawni GIG Cymru (ar gyfer eitem agenda 2) Jenny Morgan, Rheolwr Datblygiad Ymchwil Gweithredol, Uned Gyflawni GIG Cymru (ar gyfer eitem agenda 2) Emrhys Pickup, Uwch Ddadansoddwr, Uned Gyflawni GIG Cymru (ar gyfer eitem agenda 2) Julie Townsend, Uwch Ddadansoddwr Gwybodaeth, Uned Gyflawni GIG Cymru (ar gyfer eitem agenda 2) Debbie Lentle, Uwch Ddadansoddwr, Uned Gyflawni GIG Cymru (ar gyfer eitem agenda 2)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Croesawodd y cadeirydd aelodau newydd y BPRhGC: Sian Tomos, cynrychiolydd y Trydydd Sector a Ricki Owen, cynrychiolydd Defnyddiwr Gwasanaeth.</p>	

	<p>Bu i'r cadeirydd hefyd ddiolch i RH, nad yw'n gallu mynychu ei chyfarfod diwethaf heddiw, am ei chyfraniad dros y 2 flynedd diwethaf fel cynrychiolydd y Trydydd Sector a John Gallanders, sy'n ymddeol o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam ym mis Ionawr fel y cynrychiolydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.</p> <p>Dyweddod y cadeirydd bod 2 sedd wag pellach ar y BPRhGC a bydd y Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer y rhain yn cael eu cylchredeg yn y Flwyddyn Newydd.</p>	<p>Anfon llythyrau ymlaen at RH a JG - RW</p>
<p>2.</p>	<p><u>Addasu Gwasanaethau Cymunedol (Gofal Mwy Dwys a Gofal Llai Dwys) 2021: Adborth ar Ganfyddiadau ac ateb Cwestiynau Comisiynu Allweddol</u></p> <p>Rhoddodd LC grynodedb byr o gefndir y Prosiect Maint Iawn. Ymgwymerodd yr Uned Gyflawni (UG) ag Adolygiad Rhyddhau cymhleth ar draws Cymru yn 2018 a nododd gyfleoedd coll i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty oherwydd cyfyngiadau capasiti mewn gwasanaethau cymunedol. O ganlyniad, datblygwyd y 4 llwybr ar draws Cymru, wedi'u teilwra i Gymru Iachach a'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Cam 1 - Datblygwyd Addasu Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer y Prosiect Rhyddhau yn defnyddio model John Bolton yn 2019-2020 yn dangos yr angen i ddeall ffigurau lleol, rhoi'r gofal canolradd cywir ar waith a mesur canlyniadau'n barhaus i benderfynu os yw'n cyflawni'r nod.</p> <p>Ers i'r UG gyflwyno i'r BPRhGC ddiwethaf, mae camau 2 a 3 wedi'u datblygu, adnewyddu'r data ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer rhyddhau, ac yn cynnwys gofal llai dwys, rhoi cymaint o gefnogaeth â phosibl yn amgylchedd y bobl eu hunain, ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty drwy wasanaethau gofal estynedig Mwy Dwys. Mae'r data Gofal Mwy a Llai Dwys yn galluogi efelychiad a sail tystiolaeth i ateb y cwestiynau comisiynu allweddol canlynol.</p> <p>1. Pa gapasiti ychwanegol/symudadwy sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â thagfeydd ein system gyfredol?</p> <p>Er nad yw data Gogledd Cymru wedi'i ddarparu i boblogi model JB, mae'n bosibl cael y wybodaeth yn ymwneud â'r oediadau a brofwyd ar hyn o bryd gyda chleifion yn gadael yr ysbyty, mae'r dystiolaeth o'r data rhyddhau yn nodi'n glir bod diffyg parhaus mewn capasiti i fodloni'r galw, ac wrth wneud tybiaethau ar ba mor hir mae cleifion yn aros gallwn lunio casgliadau ar faint o gapasiti ychwanegol sydd ei angen ar gyfer pob rhan o'r system.</p> <p>2. Pa gapasiti ychwanegol/symudadwy sydd ei angen arnom i gyrraedd beth mae 'rhesymol' yn edrych fel?</p>	

Heb y data, mae'n amhosibl dweud pa gapasiti ychwanegol sydd ei angen. Mae'r model yn barod yn nodi beth ddylid ei wneud er mwyn darparu'n rhesymol.

3. Os ydym yn buddsoddi mewn mwy o ofal mwy dwys, a all hyn leihau ein galw am ofal llai dwys?  
Ie, bydd hyn yn darparu llawer o fuddion i'r unigolyn, wedi'i seilio ar fewnwelediad yr arbenigwyr; byddai cael achosion cymhleth ychwanegol mewn gofal mwy dwys yn gofyn i ystyried os bydd cyfran o'r achosion hynny sy'n mynd ymlaen i fod angen eu derbyn i'r ysbyty yn cynyddu.
4. A fydd angen i ni gynnal ein gwasanaethau ddwywaith am gyfnod? Os felly, am ba mor hir?  
Drwy newid y cyfeiriadau Gofal Mwy Dwys, mae'r model yn dangos effaith uniongyrchol ar leoedd Gofal Mwy Dwys. Mae effaith Gofal Llai Dwys ar ofal canolradd yn cymryd oddeutu 6 mis neu'n hirach. Bydd gweithio gyda data Gogledd Cymru yn cadarnhau'r niferoedd yn fanwl gywir ar gyfer ein systemau. Fodd bynnag, gall gymryd hyd at 4 blynedd i Ofal Llai Dwys gyrraedd sefyllfa newid sefydlog oherwydd llwybrau hirach o leoliadau gofal cartref a chymorth cartref.

Eglurodd JF bod y data cychwynnol yn tynnu data o'r BI a'r ALI ar wahân, ac roedd yr anallu i baru'r achosion ar draws y system yn effeithio ar ddilysrwydd y canlyniadau, gan godi pryderon difrifol o ganlyniad.

Er cryn dipyn o waith gan Grant Thornton ar y cytundeb rhannu data a rhan y tîm UG, roedd pryderon yn parhau o ran dilysrwydd y data yn dilyn rhedeg y data am yr eildro, gyda systemau data wedi'u cyfyngu i gofnodi ac adrodd ar wybodaeth, rhoi cydnabyddiaeth gan uwch reolwyr a swyddogion yn gweithio mewn Trawsnewid Cymunedol y byddai'r offer maint iawn yn helpu i weithio tuag at ddiwylliant comisiynu ar sail tystiolaeth, gan gydnabod bod angen gwneud mwy o waith gyda sefydliadau.

Eglurodd JM, er nad yw data ehangach PBC ac ALI ar gael, mae'n bosibl gweld beth sy'n edrych yn rhesymol o fewn y system gyfan drwy gymryd data am y boblogaeth a derbyniadau ysbyty ar gyfer y rhanbarth wrth ddarparu gwasanaethau yn erbyn model Gofal Llai Dwys JB a'r model Gofal Mwy Dwys a grëwyd drwy'r gymuned ymarfer. Mae'r materion allweddol ar gyfer y rhanbarth yn fwy am yr heriau i oresgyn i gael hyder mewn data ar y cyd i wneud cymariaethau a chael y darlun cyflawn.

Mae'r gwaith Maint lawn wedi dysgu bod angen i'r rhanbarth wella systemau o ran cofnodi ac adrodd ar ddata, bydd mewnbynnu data yn gywir i'r un system yn brydlon yn sicrhau hyder mewn niferoedd a chanlyniad y rhain. Bydd buddsoddi mewn defnyddio'r offer

modelu maint iawn yn hysbysu, siapio a datblygu gwasanaethau a gomisiynwyd yn y dyfodol.

Dywedodd JF, yn y cyfamser, bod cyfle i ymgymryd â phrosiect untro, i olrhain derbyniadau a rhyddhau ym mhob un o'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth dros gyfnod cytunedig i roi darlun mwy cywir o'r llif, a gofynnwyd i'r cynnig hwn gael ei ystyried fel rhan o ddatblygu achos busnes ar gyfer buddsoddi.

Yn dilyn trafodaeth lawn gydag aelodau'r BPRhGC, nodwyd y materion canlynol:

- Pryder o ran o ble fyddai'r adnoddau'n dod i gasglu'r data *Gan gydnabod y bydd angen staff mewnol i helpu gyda chasglu'r data, unwaith bydd gwaith tir y data wedi'i gwblhau gellir gweld y gwaith hwn fel cydbwysedd o gefnogaeth yn hytrach nag adnodd ychwanegol.*
- Problem o redeg dwy system yr un amser â chasglu'r data diweddaraf a bod yn ymwybodol o'r AAP a'r ASF fel rhan o'r gwaith hwn.
- Buddiol i ddeall y materion o ran casglu data.
- Roedd y partneriaid yn cytuno bod y gwaith Maint lawn yn agenda partneriaeth allweddol. Fodd bynnag, gofynnodd y partneriaid am fwy o amser i ystyried y ffordd orau i ddatblygu'r gwaith hwn;
- y llwybr mwyaf effeithiol yn cael ei gynnig ar lefel lleol drwy Fyrddau Gwasanaeth Integredig Ardal (BGIA) gan ystyried ôl troed BIPBC, gyda phob isranbarth ar bwynt dechrau gwahanol, ac ymgysylltu dulliau gwahanol i'r gwaith hwn. *Cadarnhaodd cydweithwyr yr UG y byddai gweithio ar lefel isranbarthol yn opsiwn.*
- Nododd y partneriaid cefnogaeth mewn egwyddor, byddai partneriaid yn cael budd o drafodaeth leol yn y BGIA, Grŵp Arweinyddiaeth a gyda chydweithwyr mewnol cyn ymrwymo i'r gwaith hwn.
- Mynd at y BPRh sydd wedi defnyddio'r sefydliad Lightfoot, sy'n llunio data unigol a chreu set data a rennir yn rhoi mewnwelediad a rennir, i helpu gyda'r gwaith hwn. Defnyddir Lightfoot o fewn y BI.

*Eglurodd JF bod gan y sefydliad Lightfoot ddull tebyg i'r Dadansoddiad System Gyfan ar gyfer Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol, yn gweithio gydag ystod fawr o ffactorau yn dylanwadu ar bresenoldeb, adran achosion brys, llif systemau a phwysau.*

*Fodd bynnag, yn sgil elfen cost sylweddol, mae adborth gan gydweithwyr yn y BI a'r Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol yn nodi cyfle go iawn i adeiladu Dangosfwrdd Data integredig ar draws y rhanbarth i hysbysu dull systemau cyfan a model maint iawn yn hytrach na chael nifer o raglenni gwahanol. Mae'r UG yn annog yn rhagweithiol i'r model gael ei wneud ar lefel ardal leol, gyda'r system yn drosadwy ac unigryw i dderbyn gwahanol ardaloedd a gwahanol osodiadau, ac ni fydd unrhyw*

	<p><i>reswm pan na ellir mabwysiadu'r system ar lefel fwy gronynnog nag ardaloedd ALI ychwaith.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw ynglŷn ag ad-daliad 4 blynedd. Mae'r rhanbarth yn barod wedi buddsoddi mewn cyfleusterau Gofal Llai Dwys ac yn deall ei bod yn anodd mesur effaith hwn, efallai bydd amserlen hirach yn egluro hyn. Cynnig i ddefnyddio Lightfoot i ymgysylltu mewn darn o waith ehangach ar gyfleusterau Gofal Mwy Dwys gyda nifer fach o grŵp targed.</li> </ul> <p>Gofynnir i'r BPRhGC ystyried datblygu'r agenda Maint lawn, mewnosod yr efelychiad i gynllunio strategol craidd, a bod partneriaid yn ymrwymo i fynd i'r afael â materion o ran cofnodi data ac ansawdd data fel ffordd o alluogi i wneud y gwaith hwn.</p> <p>Mae cyfle drwy'r gronfa refeniw a buddsoddi i ddatblygu rhaglen waith integredig a fyddai'n ychwanegu capasiti gyda'n timau Systemau Rheoli Gwybodaeth ein hunain i weithio drwy rai o'r materion i fewnosod y gwaith hwn i arfer craidd, yn ogystal ag ystyried sut mae'n ffitio gydag offer eraill fel y gwaith dadansoddi systemau cyfan a wnaed gan Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol Ardal y Canol, a'r gwaith Lightfoot a wnaed gan y BI.</p> <p>Cytunodd y BPRhGC nad oedd modd penderfynu ar ddatblygu'r gwaith Maint lawn heddiw. Er bod aelodau'r BPRhGC wedi datgan diddordeb i ddatblygu hwn ymhellach, mae angen trafodaethau lleol yn y BGIA a'r Grŵp Arweinyddiaeth ar sut all hyn ddigwydd. Cytunwyd y byddai diweddariad ar lafar yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf a'r cynnydd a wnaed.</p> <p>Bu i'r cadeirydd ddiolch i Lynda, Jennifer a Jo am gyflwyno diweddariad i'r BPRhGC, a derbyn bod brwdfrydedd am y gwaith hwn, mae angen mwy o waith ar sut yn union fydd hyn yn digwydd, faint fydd o'n costio a pha adnoddau fydd eu hangen i'w ddarparu.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>1. Trafod y model Maint lawn ymhellach ym mhob Cyfarfod BGIA, cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth a gyda chydweithwyr mewnol.</b></li> <li><b>2. Darparu diweddariad ar lafar ar y cynnydd a wnaed ar y cynnig maint iawn.</b></li> </ol>	
<p>3.</p>	<p><u>Diweddariad is-grŵp plant BPRhGC (diweddariad ar lafar) – Catrin Roberts</u></p> <p>Dyweddodd CR bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, gyda 3 rhaggyfarfod yn barod wedi'u cynnal a oedd yn fuddiol a chynhyrchiol. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar sefydlu is-grŵp Plant BPRhGC cadarn yn ffurfiol. Mae darn sylweddol o waith wedi'i wneud i ystyried y Cylch Gorchwyl, trafod llywodraethu clir ac adrodd ar strwythurau, aelodaeth, ac adolygu gwaith mapio'r holl gyfarfodydd plant ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae partneriaid wedi archwilio sut fydd y gwaith ar yr AAP yn</p>	

	<p>dylanwadu ar waith yr is-grŵp Plant yn y dyfodol, a bydd y gwaith mapio yn cael ei ailystyried unwaith bydd blaenoriaethau'r grŵp wedi cael eu pennu.</p> <p>Mae angen trafodaeth bellach am aelodaeth y grŵp gyda'r posibilrwydd i sefydlu grŵp ymgysylltu ehangach, a fydd yn allweddol i siapio a dylanwadu'r gwaith gweithredol o'r is-grŵp Plant a Phobl Ifanc. Mae'r elfen hon o'r cylch gorchwyl yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau aelodaeth briodol.</p> <p>Cynhelir y cyfarfod ffurfiol cyntaf ym mis Ionawr 2022.</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Adroddiad Canol Blwyddyn Gofalwyr 2021-22 - Ffion Johnstone</u> Cafodd y bwrdd ddiweddariad canol blwyddyn gan FJ ar Gyllid Partneriaeth Gofalwyr BILI 2021/22.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y defnydd o arian grant gofalwyr blynyddol LIC ar gyfer 2021/22 (£213k), a ddyrannwyd i BIPBC er mwyn gwella bywydau gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cefnogi bywyd ar y cyd â gofalu</li> <li>2. Adnabod a chydabod Gofalwyr</li> <li>3. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth</li> </ol> <p>Mae disgwyl i ddyraniad cyllid 2021-2022 gael ei wario'n llawn a hyd yma mae wedi cael ei ddefnyddio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Helpu practisiau meddygon teulu i ddatblygu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr a ffyrdd o weithio sy'n cefnogi gofalwyr <ul style="list-style-type: none"> <li>– Mae contract Gwasanaeth Hwyluso Meddygon Teulu ac Ysbyty wedi'i gomisiynu ar gyfer Cynnal Gofalwyr a GOGDdC. Mae'r bartneriaeth yn y broses o ddatblygu cynllun achrededig gwasanaeth Buddsoddi mewn Gofalwyr haenog.</li> <li>– Cyfathrebu dwys gyda meddygfeydd ar ddiweddariad ar ddeddfwriaeth, hyfforddiant ac addysg i godi ymwybyddiaeth am ofalwyr mewn meddygfeydd a fferyllfeydd.</li> <li>– Nodi gofalwyr ar y cyfle cyntaf a gweithio gydag asiantaethau i gefnogi gofalwyr.</li> </ul> </li> <li>• Cymorth i ofalwyr mewn perthynas â chynllunio i ryddhau unigolyn/ion sy'n derbyn gofal o'r tri phrif ysbyty a rhai ysbytai cymunedol.</li> </ul> <p>Nododd cynrychiolydd Gofalwyr BPRhGC adroddiad ardderchog, a sicrhau bod Cynnal Gofalwyr a GOGDdC yn gweithio gyda'i gilydd, a'i fod yn amlwg fod gallu a pharodrwydd gofalwyr i gamu ymlaen yn cael ei ystyried wrth edrych ar drefniadau rhyddhau o'r ysbyty.</p>	

	<p>Bu i'r BPRhGC gydnabod y gwaith a wnaed yn yr adroddiad canol blwyddyn a chytuno ar yr argymhelliad bod y BPRh yn cytuno bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Diweddariad gwaith adfer PBC - Jo Whitehead/Nicola Stubbins (diweddariad ar lafar)</u>  Nodwyd bod pwyslais BPRh Gogledd Cymru wedi mynd yn llai strategol ac yn fwy ymatebol yn ystod y pandemig. Fel ymateb i hyn, mae'r cadeirydd, is-gadeirydd a Phennaeth y Cydweithrediad Rhanbarthol wedi trefnu i gyfarfod ym mis Ionawr i drafod ail-ganolbwyntio rhaglen waith y BPRhGC, a bydd yn ymgysylltu gydag aelodau'r BPRh maes o law.</p> <p>Cynghorodd NS, wrth fod yn ystyriol o'r gwaith sylweddol sy'n ymwneud â Covid, mae'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol (GCRh) wedi cydnabod nad yw'r rhanbarth mewn cam adferiad ac o ganlyniad wedi cytuno i roi'r gorau i adrodd ar y blaenoriaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r GCRh yn parhau i gyfarfod; mae'r grŵp wedi cael ei ailenwi yn Grŵp Ymateb Strategol Pwysau'r Gaeaf Gogledd Cymru (GYSPGGC), yn canolbwyntio ar bwysau'r gaeaf o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Oherwydd swyddi lefel uchel yr aelodau, mae'r grŵp yn gallu tynnu sylw a chodi materion yn uniongyrchol gyda LIC. Nid yw'r GYSPGGC yn ailadrodd gwaith y BPRhGC.</p> <p><u>Diweddariad PBC</u>  Cododd JoW bryder sylweddol o ran yr amrywiolyn Covid newydd Omicron. Mae arwydd cynnar yn dynodi amrywiolyn gafaelfgar, gyda BIPBC yn gweithio i ddyblu nifer y brechlynnau, sydd ar hyn o bryd yn oddeutu 30,000 yr wythnos, rhwng rŵan a diwedd mis Ionawr. O ganlyniad, mae BIPBC yn ystyried oedi triniaethau penodol i ganolbwyntio ar waith Covid. Roedd JoW yn cydnabod gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nod hwn ac yn cydnabod ymdrechion arwrol staff a gwirfoddolwyr.</p> <p>Trafodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod Cylch Gorchwyl GYSPGGC yn cael ei gylchredeg i'r BPRhGC.</li> <li>• Gofynnwyd am ddiweddariad ar Arweinydd lechyd a Gofal Cymdeithasol Prif Weithredwr BPRhGC.</li> <li>• Nodwyd pryder am yr ôl-groniat o bobl sy'n aros am driniaeth, ar wahân i Covid, a'r cynnydd mewn problemau iechyd meddwl oherwydd unigedd.</li> </ul> <p>Dywedodd NS bod y Prif Weithredwr CBSC wedi cytuno i arwain ar lechyd a Gofal Cymdeithasol, a hefyd gyda rôl ychwanegol o gadeirio'r GYSPGGC. Cytunwyd y bydd y BPRhGC yn anfon llythyr gwahoddiad ymlaen at ID i ymuno â'r BPRhGC. Cytunodd aelodau'r BPRhGC NS, ME, JoW a TO, a fynychodd y GYSPGGC hefyd, i ddiweddarau'r BPRh ar gynnydd y grŵp.</p>	<p>Dileu adferiad o'r agenda'r BPRhGC - RW</p> <p>Cylchredwyd y cylch gorchwyl - RW</p> <p>Ysgrifennu at Iwan Davies yn ei wahodd i'r BPRhGC</p>

	<p>Mewn ymateb i'r drafodaeth niwed o Covid, sy'n effeithio ar bob elfen o ofal, mae'r BI yn edrych ar sut i leihau amseroedd aros a chael cytundeb gyda darparwyr allanol er mwyn rhoi cyfle i gleifion gael eu trin. Mae BIPBC yn barod wedi cymeradwyo adnoddau ychwanegol i gefnogi amseroedd aros hirach o ran gwasanaethau iechyd meddwl yn benodol yn canolbwyntio ar blant.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Adroddiad Cronfa Gofal Integredig (CGI) Chwarter 2 - Neil Ayling</u> Rhoddodd NA amlinelliad o sefyllfa C2 2021/22 y ffrydiau cyllido CGI. Mae uchafbwyntiau'r 6 rhaglen ariannu a reolir drwy'r CGI ar hyn o bryd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Buddsoddi Refeniw - Refeniw - Hyd yn hyn wedi gwario bron i 43% o'r dyraniad. Yn y 6 mis cyntaf o'r flwyddyn, roedd £2.36miliwn wedi'i wario'n uniongyrchol yn cefnogi gofaluwr a £1.08miliwn o fuddsoddiad wedi mynd tuag at brosiectau trydydd sector. Mae adolygiad o statws y prosiectau yn dangos bod gan 95 o'r 125 statws BRAG gwyrdd gyda 1 coch a 24 oren (mae'r 1 prosiect coch wedi cael trafferth recriwtio ac mae'r 24 prosiect oren wedi cael trafferth gyda heriau staffio), gyda 5 prosiect yn dal yn aros am sefyllfa ddiweddaraf. Nid oes unrhyw bryderon gyda'r llithriad, a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn prosiectau eraill yn y rhanbarth.</li> <li>• Cynllun Buddsoddi Cyfalaf - Cyfalaf – mae 18 prif gynllun cyfalaf a 18 cynllun cyfalaf dewisol ar y gweill. Roedd y gwariant a hawliwyd yn C2 yn isel - dim ond £809,000 (sy'n 8.6% o'r dyraniad £9.1miliwn.) Mae'n braf nodi bod LIC wedi caniatáu hyblygrwydd o ran cynlluniau rheoli rhaglen o 2018, ac mae hyn yn parhau yn 2022-23 ar sail fesul achos, gyda 5 cais am reoli rhaglen hyd yma.</li> <li>• Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) - Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig - Mae'r cyllid GAI ar gyfer 2021/22 yn £652,000 ac mae gwariant ar C3 yn £516,030 (79%). Mae partneriaid ar hyn o bryd yn datblygu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer y Cod Ymarfer. Bydd y rhain yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn cynllun rhanbarthol a'u cyflwyno fel bo angen i Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (TIP) - Peilot Ymyrraeth Therapiwtig - Mae'r cyllid TIP ar gyfer 2021/22 yn £200,000 ac mae gwariant ar C2 yn £88,749 (43.7%). Mae ychydig o'r arian wedi'i ddefnyddio ar gyfer y Strategaeth Dim Drws Anghywir.</li> <li>• Gwasanaeth Asesu Cof (MAS) - Gwasanaeth Asesu Cof - Cymeradwywyd cyllid ailadroddol newydd o £678,000 ym mis Awst 2021 i wella gwasanaethau asesu cof.</li> <li>• Llety diogel ar gyfer plant gydag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, lefel uchel (SACCN) - Llety diogel ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth - Cadarnhawyd cyllid sefydlu o £435,328 ddiwedd mis Mai 2021. Mae LIC wedi sicrhau bod £14,672 ychwanegol ar gael ac mae'r cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i ymgorffori'r cyllid ychwanegol.</li> </ul> <p>Nododd MW mater a drafodwyd yn y cyfarfod BARhGC gyda Gweinidogion ddod yn ymwneud â chyllido dwbl cyllid CGI i</p>	



	<p>ddatblygu gwasanaethau newydd ochr yn ochr â hen wasanaethau. Mae LIC wedi bod yn benodol bod hyn yn annerbyniol i ariannu gwasanaethau craidd o fewn ALI ac mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r BPRh fod yn ymwybodol ohono pan fydd y canllaw cyllid newydd ar gael.</p> <p>Mae'r CGI wedi bod yn gymorth mawr i asiantaethau partner, gyda disgwyliad i fuddsoddi mewn gwasanaethau datblygol ac arloesol, ar adegau pan mae adnoddau yn gyfyngedig, mae'n bwysig ariannu'r gwasanaethau mwyaf hanfodol yn gyntaf. Mae'r Grŵp Gweithredol CGI, yn cynnwys swyddogion o asiantaethau partner, wastad wedi bod yn ystyriol o bob penderfyniad a wnaed i gael y cydbwysedd yn iawn.</p> <p>Roedd y BPRhGC yn cytuno nodi sefyllfa C2 2021/22 ffrydiau cyllido'r CGI a chytuno ar adroddiad C2 2021/22 ar gyfer ffrydiau cyllido'r CGI.</p>	
7.	<p><u>Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Tachwedd 2021</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9.10.2021 yn gywir gyda'r holl gamau wedi'u cwblhau.</p> <p>Camau gweithredu a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyr wedi'i anfon ymlaen at BA - wedi'i gwblhau</li> <li>• Prosiect Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc a Staywise - <i>Dyweddod HC y bydd yn mynd a'r cais i'r Bwrdd Strategol Cymru Gyfan a bydd yn adrodd yn ôl i'r BPRhGC.</i></li> <li>• Anfon enwau gwirfoddolwyr ymlaen at NS - <i>nid oes unrhyw enwau pellach wedi'u derbyn er bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi nodi arweinydd arall o ranbarth arall, a fyddai'n gweithio mewn partneriaeth gyda chynnig Heddlu Gogledd Cymru .</i></li> <li>• Cyllid y Dyfodol - BPRh i ysgrifennu at LIC ar hyblygrwydd y gronfa - <i>wedi'i gwblhau</i></li> </ul>	
8.	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p>Hysbysodd CR y BPRhGC am gyfarfod adeiladol diweddar gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, i drafod y cynnydd gyda rhoi'r fframwaith NYTH ar waith yn y rhanbarth a chefnogi cymorth a gofal dementia, yn cynnwys y Gwasanaeth Asesu Cof.</p>	
9.	<p>Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cynllun y Gaeaf Terfynol 2021/22</li> <li>2. Ymateb Gogledd Cymru i lythyr Comisiynydd Plant Cymru 20.10.2021</li> <li>3. Llythyr i Shelley Davies, LIC</li> <li>4. Adroddiadau diweddariad ar Flaenoriaeth Adfer i'r GCRh (Tachwedd)</li> <li>5. Adroddiad Cynnydd WCCIS Ebrill - Medi 2021</li> </ol>	